**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

9 Medi 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Gorffennaf yn cynnwys cwestiynau atodol o'ch sesiwn dyddiedig 9 Gorffennaf.

Isod, rwyf wedi rhestru eich cwestiynau gyda'r atebion priodol.

## Pysgodfeydd

1. **Roeddech chi wedi dweud wrth y Pwyllgor eich bod yn gobeithio gwneud datganiad ynghylch polisi pysgodfeydd yn y dyfodol ym mis Mawrth, ond ei fod wedi cael ei oedi oherwydd pandemig Covid-19. Oes modd i chi ddweud wrth y Pwyllgor pa bryd rydych yn disgwyl gallu gwneud y datganiad hwnnw?**

2. **O ran Grant Pysgodfeydd Cymru, roeddech chi wedi dweud wrth y Pwyllgor bod 120 o gychod wedi cael cymorth grant gwerth dros £0.5 miliwn. Oes modd i chi gadarnhau beth yw pwrpas y grant hwn, a sut byddwch yn penderfynu a yw wedi bod yn effeithiol ai peidio?**

Roedd Grant Pysgodfeydd Cymru ar gyfer busnesau pysgota economaidd ymarferol sydd wedi'u trwyddedu yng Nghymru. Cafodd y cynllun grant ei ddatblygu i bontio'r blwch yn y cymorth a ddarperir ar gyfer y sector hwn, gan barhau i fod yn gyson o ran cyllid â'r Gronfa Cadernid Economaidd. Nod y cynllun grant oedd helpu i gynnal busnesau pysgota yng Nghymru yn ystod unrhyw amhariad economaidd tymor byr i sicrhau bod cychod yn parhau i bysgota y tu hwnt i argyfwng iechyd y cyhoedd COVID-19.

Gellir ystyried Grant Pysgodfeydd Cymru yn llwyddiant hyd yma, oherwydd mae wedi llwyddo i roi cymorth i 97% o fusnesau pysgota economaidd ymarferol yng Nghymru a nodwyd ymlaen llaw. Yn ogystal â hyn, cafodd 12 busnes arall nad oedd yn bodloni meini prawf y cynllun i ddechrau eu hystyried fesul achos, a chawsant gymorth. Datblygwyd i grant i sicrhau y gall busnesau pysgota economaidd ymarferol barhau i bysgota ar ôl Covid-19, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro capasiti fflyd Cymru wrth i'r sector gael ei gefn ato ar ôl Covid-19 i bennu effeithiolrwydd yr ymyriad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. **Mae'r grant £0.5 miliwn yn cynrychioli tua £4,000 y cwch pysgota ar gyfartaledd. Oes modd i chi gadarnhau eich bod yn fodlon bod y cyllid hwn yn ddigonol? Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer rhagor o gymorth ariannol i'r sector hwn er mwyn ei helpu i gael ei gefn ato?**

Rwyf yn fodlon bod cyfanswm gwerth y grant wedi darparu'r lefel angenrheidiol o gymorth i'r diwydiant pysgota yn ystod y cyfnod hwn/ Roedd symiau'r grant yn seiliedig ar gostau sefydlog misol cyfartalog yn ôl maint y cwch. Cafodd y rhain eu datblygu o arolwg blynyddol o'r diwydiant gan Seafish, corff cyhoeddus anadrannol. Roedd hyn yn rhoi lefel briodol o gymorth i'r busnesau unigol a nodwyd.

Bydd rhagor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gael i roi cymorth i fusnesau dyframaethu cymwys yng Nghymru sy'n cynhyrchu stoc i'r bwrdd. Agorodd y Cynllun Cymorth i Fusnesau Dyframaethu ar 10 Awst, ac mae'n cau ar 21 Medi. Mae'n cael ei reoli drwy Taliadau Gwledig Cymru a bydd yn cael ei gyflenwi drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Bydd y cynllun hwn yn darparu cymorth tymor byr ar gyfer colledion o ganlyniad i bandemig Covid-19.

4. **Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cyfeirioch at sawl enghraifft o weithgarwch pysgota anghyfreithlon. Oes modd i chi roi manylion i'r Pwyllgor am y lefelau o weithgarwch anghyfreithlon yn ystod y cyfnod diweddar hwn pan nad yw'r cychod gorfodi wedi bod yn patrolio dyfroedd Cymru? Oes modd i chi gadarnhau bod yr holl gychod gorfodi yn weithredol bellach?**

Mae'r dystiolaeth a'r wybodaeth yn awgrymu er bod rhywfaint o weithgarwch pysgota anghyfreithlon wedi digwydd o bosibl, nid oes awgrym o gynnydd yn yr ymddygiad hwn yn ystod y cyfyngiadau symud. Nid oedd yn eang nac ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae unrhyw bysgota anghyfreithlon yn annerbyniol a lle bo'n bosibl, bydd camau gweithredu yn cael eu cymryd. Mae holl gychod patrolio pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yn weithredol bellach.

## <u>Yr Amgylchedd</u>

5. **Rydym wedi clywed bod yr oedi o ran taliadau gan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi achosi problemau i rai cyrff anllywodraethol. Oes modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa i'r Pwyllgor ac, os oes materion heb eu datrys, pennu amserlen ar gyfer gwneud hynny?**

Nod Taliadau Gwledig Cymru yw prosesu pob hawliad i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael ffurflen hawlio gyflawn, yn cynnwys yr holl dystiolaeth ddogfennol ategol. Rhaid ystyried pob hawliad a'r holl ddogfennau ategol yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r cynllun a Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.
Hyd yma, rydym wedi cael 137 hawliad o 29 o'n 31 o brosiectau'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy. O blith y rhain mae 126 wedi cael eu prosesu ar gyfer taliadau gwerth £6.1m. Yr amser a gymerwyd i brosesu'r hawliadau hyn oed 37 diwrnod ar gyfartaledd. Cafodd bron i hanner eu prosesu cyn pen 30 diwrnod ar ôl eu cael.

O blith yr 11 hawliad sy'n weddill, mae pump yn aros am ragor o wybodaeth gan y buddiolwr ac mae un hawliad yn amodol ar arolygiad gweinyddol 'in-situ'. Mae'r pum hawliad sy'n weddill yng nghanol y broses dilysu hawliadau lawn, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw faterion sylweddol heb eu datrys.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Taliadau Gwledig Cymru wedi bod yn destun nifer o archwiliadau. Daeth yr un diweddaraf gan Archwilio Cymru. Cafodd ei adroddiad 'Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian' ei

gyhoeddi’n ddiweddar. Mae’r materion sy’n cael sylw yn yr adroddiad yn rhai y mae swyddogion Taliadau Gwledig Cymru eisoes wedi eu nodi a’u cryfhau. Mae Taliadau Gwledig Cymru yn gwneud pob ymdrech i brosesu’r hawliadau sy’n weddill ar gyfer taliad cyn gynted ag y bo modd.

6. **Yn ystod y sesiwn, roeddech wedi cyfeirio at yr angen i sicrhau “adferiad gwyrdd” ar ôl pandemig Covid-19. Oes modd i chi amlinellu eich cynlluniau ar gyfer adferiad gwyrdd yng Nghymru? A ydych yn bwriadu cyhoeddi cynllun neu strategaeth er mwyn i bobl eraill weld y cyfeiriad teithio?**

Yn y bôn, mae’n rhaid i adferiad gwyrdd ar ôl pandemig Covid-19 fod yn un sy’n gweithio i ailadeiladu ein heconomi, gan fynd i’r afael â’r materion amgylcheddol difrifol sy’n ein hwynebu ar yr un pryd, yn ogystal â gwella cydnerthedd ein holl gymunedau.  Nid yw hyn yn golygu canolbwyntio ar yr amgylchedd a dim arall. Mae’n golygu gwneud y cysylltiadau rhwng gwella canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er mwyn cynyddu cydnerthedd. Mae hyn yn golygu cyd-drefnu polisïau a darpariaeth a fydd yn cyflymu’r broses o bontio i economi carbon isel, a Chymru iachach sy’n fwy cyfartal.

Mae’r Cwnsler Cyffredinol yn arwain cyfres o drafodaethau bwrdd crwn gydag arbenigwyr o bob rhan o gymdeithas, o Gymru a thu hwnt. Mae’r trafodaethau hyd yma wedi bod yn llawn gwybodaeth, a byddwn yn parhau i gyhoeddi adroddiadau cryno. Y bwriad yw adeiladu ar hyn drwy gyfres arall o drafodaethau bwrdd crwn ar-lein dros yr wythnosau nesaf.

Cyhoeddwyd gwahoddiad agored i bobl yng Nghymru gyflwyno eu safbwyntiau ar sut dylid cefnogi’r adferiad ar ôl Covid yn y dyfodol, ac roedd fy nghyd-weithwyr Gweinidogol wedi ysgrifennu at eu rhanddeiliaid i’w gwahodd i gyflwyno eu safbwyntiau drwy’r un sianel erbyn diwedd mis Gorffennaf. Rydym nawr yn ystyried y cyfraniadau hyn fel rhan o’r gwaith adfer. Ond bydd y deialog hwnnw’n dal ar agor.

Ar ôl i ni weld safbwyntiau a chynigion ein holl randdeiliaid, byddwn mewn safle i allu amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer adfer, gan gynnwys ynghylch yr elfennau hynny sy’n mynd i’r afael â lefelau defnyddio anghynaliadwy, yn hybu bioamrywiaeth, ac yn cyflymu’r broses o bontio i economi carbon isel.

O ran y cyfeiriad teithio yn y lle cyntaf, efallai y bydd Aelodau o’r Pwyllgor yn dymuno gwybod y bydd y materion cyntaf i'w hystyried yn cynnwys: sut rydym yn buddsoddi yn ein pobl drwy eu cyflenwi â sgiliau ar gyfer yr economi ar ôl Covid a’r gallu i addasu mae dysgu gydol oes yn ei ddarparu; sut rydym yn gwneud y defnydd gorau o’n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy; sut rydym yn meithrin creadigrwydd ein busnesau cynhenid; a sut rydym yn ailddychmygu canol ein trefi er mwyn iddynt fod yn ganolfannau cymunedol bywiog unwaith eto.

7. **Sut bydd Aelodau’r Senedd a’r cyhoedd yng Nghymru yn gallu barnu a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni “adferiad gwyrdd”?**

Rwy’n croesawu diddordeb a gwaith craffu’r Pwyllgor yn hyn o beth, yn ogystal â’r syniadau am gamau gweithredu a gyflwynwyd gan ddinasyddion a rhanddeiliaid. Yr hyn sy’n dod i’r amlwg yw bod consensws eang ynghylch nifer o feysydd blaenoriaeth, o helpu ein cymunedau a’n trefi i ailadeiladu, i gymryd camau i ddiogelu ac adfer ein hamgylchedd. Byddwn yn parhau i drafod ein cynigion ar gyfer camau gweithredu â dinasyddion a rhanddeiliaid wrth i ni barhau i gael ein cefn atom ar ôl y digwyddiad digynsail hwn.

Mae’r ansicrwydd presennol yn golygu nad oes modd rhag-weld patrwm ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol yn gywir. Mae ffactorau byd-eang a allai gynorthwyo neu rwystro ein hymdrechion yma yng Nghymru, gan gynnwys helyntion parhaus yr economi fyd-eang, Brexit, ac effaith digwyddiadau hinsoddol.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ein hatal rhag ymdrechu i sicrhau adferiad gwyrdd sy'n gweithio i gymryd camau ystyrlon, wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol difrifol sy'n ein hwynebu ac i wella ein cydnerthedd ym mhob cymuned.

Wrth gwrs byddwn yn parhau i gyhoeddi datganiadau, data ac adroddiadau am ein cynnydd ar faterion amgylcheddol a materion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft allyriadau carbon a chynnydd yn erbyn ein targedau o ran ein cyllideb garbon.

**8. Oes modd i chi ddarparu manylion am bwrpas ac aelodaeth y tasglu bioamrywiaeth? Mae cyllid gwerth £0.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r tasglu. Pa ganlyniadau ydych yn disgwyl eu gweld o ganlyniad i'ch buddsoddiad?**

Pwrpas y Tasglu Bioamrywiaeth yw prif ffrydio'r ddarpariaeth ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar draws Llywodraeth Cymru a'n partneriaid. Mae sefydlu'r tasglu yn cyflawni yn erbyn blaenoriaeth y Prif Weinidog i fynd i'r afael â'r heriau o ran natur a'r newid yn yr hinsawdd. Mae sicrhau trawsnewidiad yn golygu bod yn rhaid i ni brif ffrydio bioamrywiaeth ar draws Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Mae hyn yn golygu newid sylfaenol ar hyd a lled y system o ran datblygu polisïau, dyrannu cyllid, a gweithredu cynlluniau i weithio dros natur, nid yn ei herbyn.

Rwyf wedi amlinellu tri amcan ar gyfer y tasglu er mwyn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio trawslywodraethol, cyllidebau cyfun, rhannu arbenigedd ac ymyriadau sy'n cael effaith ar draws yr holl nodau llesiant. Bydd yr amcanion hyn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- pobl – i gynyddu gwybodaeth a chapasiti er mwyn sbarduno newid ymddygiad;
- prosesau – i ddylanwadu ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu ei chyllidebau a'r gwariant sector cyhoeddus ehangach;
- rhoi cynnig ar ddulliau newydd o gefnogi trawsnewidiad bioamrywiaeth, gan gynnwys modelau gwerthuso effeithiol.

Bydd y camau gweithredu a gymerir i gyflawni'r amcanion hyn yn sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- newid ymddygiad a newid sefydliadol i sbarduno gwelliannau o ran prosesau, datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau;
- defnyddio arian cyhoeddus yn fwy strategol er mwyn sicrhau buddion bioamrywiaeth;
- gwelliannau o ran gwerthuso i nodi pa ddulliau peilot sy'n cael yr effaith fwyaf ac mae modd eu hatgynhyrchu.

Bydd y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu i gefnogi trawsnewidiad yn cael ei wneud drwy dasglu mewnol, wedi'i gefnogi gan banel arbenigol allanol lle bo'n berthnasol. Bydd y tasglu hefyd yn gweithio gyda'r byd academaidd i nodi'r ymchwil diweddaraf, enghreifftiau o'r arferion gorau, a bylchau posibl er mwyn mynd i'r afael â'r her o brif ffrydio bioamrywiaeth.

Bydd y tasglu'n cynnwys uwch swyddogion polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru, wedi'u cefnogi gan arbenigwyr allweddol. Bydd y cyfranogwyr yn cyfrannu amrywiaeth o sgiliau a safbwyntiau, gyda'r nod o fabwysiadu dull dysgu gweithredol. Bydd y tasglu'n cytuno ar flaenoriaethau, yn goruchwylio'r ddarpariaeth, yn herio ac yn nodi sut gall eu timau ymgorffori'r dulliau hyn.

Dyma dair blaenoriaeth y bydd y tasglu'n canolbwyntio arnynt yn y lle cyntaf:

- cyflenwi rhaglen newid ymddygiad gyda'r wyddor ymddygiad ddiweddaraf, gan ddefnyddio dull integredig i uwch arweinwyr;

- asesu'r cynigion cyllideb cyfalaf strategol ar draws yr holl Brif Grwpiau Gwariant i nodi lle gellir gwella cynigion i sicrhau buddion bioamrywiaeth;
- datblygu rhaglen drawsnewidiol, aml-flwyddyn, seiliedig ar leoedd ar gyfer bioamrywiaeth fel rhan o adferiad natur ar ôl Covid, gan weithio mewn partneriaeth gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

Bydd dadansoddiad cost a budd yn pennu pa gynigion eraill a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a'r rhai y gellir eu datblygu flwyddyn nesaf. Bydd y ffocws ar y camau gweithredu hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran atal a dadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

**9. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y bwlch a ragwelir yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru?**

Yn ogystal â chyllid Cymorth Grant craidd gan Lywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael incwm masnachol a nifer o symiau is o gyllid grant ar gyfer amrywiol brosiectau. Er nad yw'r union effaith ariannol yn glir eto, amcangyfrif Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mehefin, ar sail amgylchiadau'r farchnad bryd hynny a'r effaith bosibl ar werthiant pren, oedd gostyngiad o tua £8m yn ei gyllid refeniw masnachol o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, gallai'r amcangyfrif hwn newid wrth i farchnadoedd newid a'n bod yn cael mwy o wybodaeth am ragolygon Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er bod pob corff cyhoeddus dan bwysau ariannol, rwyf wedi rhoi sicrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru o hyd at £5m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon pe bai hynny'n angenrheidiol a'i fod yn gallu dangos tystiolaeth o'r angen. Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau, yn enwedig o ran natur, ac i ddadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r pwysau hwn yn cael ei reoli yn y Prif Grŵp Gwariant yn y ffordd arferol.

Fel y gwyddoch, yn ei sesiwn gyda'ch Pwyllgor ar 9 Gorffennaf, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn teimlo bod y sicrwydd o £5m yn ddigon i'w alluogi i lenwi'r bwlch. Byddaf yn parhau i gael gwybod am effaith barhaus Covid-19 yn fy nghyfarfodydd rheolaidd â'r sefydliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn rheoli ei ddarpariaeth ar y cyd, ac yn deall y pwysau ariannol sydd arno.

## Bwyd

**10. Oes modd i chi ddarparu diweddariad ar sefyllfa ddiweddaraf Llywodraeth Cymru o ran profi am Covid-19 mewn ffatrïoedd prosesu bwyd?**

Y polisi o hyd yw nad oes angen i bobl wneud cais am brawf oni bai eu bod yn datblygu symptomau'r coronafeirws. Mae rhagor o wybodaeth am bryd dylid gwneud cais am brawf ar gael yn: https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19

**11. Oes modd i chi ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu i fenter #CaruCymruCaruBlas, a'i wario gan y fenter?**

Ar ôl diwrnod cyntaf yr ymgyrch ar 3 Gorffennaf, roedd y cyrhaeddiad/argraffiadau drwy gyfryngau cymdeithasol yn 750,000, ac roedd cyrhaeddiad sylw yn y wasg yn 300,000. Mae ymateb y diwydiant wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Cynhaliwyd ail ddiwrnod

cyhoeddusrwydd ar 7 Awst, gan dargedu'r diwydiant lletygarwch. Tua £35-37K yw cost yr ymgyrch #CaruCymruCaruBlas. Mae'n rhan o'r Rhaglen Datblygu Masnach.

12. **Oes modd i chi roi eich asesiad presennol o ddiogelwch y cyflenwad bwyd yng Nghymru i'r Pwyllgor, gan gynnwys cydnerthedd cadwyni cyflenwi? A ydych yn credu bod angen cymryd unrhyw gamau gweithredu i gryfhau'r cydnerthedd hwnnw yng nghyd-destun ail don bosibl o heintiau Covid-19 (a'r cyfyngiadau cysylltiedig) dros y gaeaf?**

Mae'r cyflenwad bwyd wedi dychwelyd i'w gyflwr arferol, cyn Covid-19, ac eithrio'r sector gwasanaethau a chyfanwerthu. Mae'r cyfyngiadau symud yn dal i gael effaith fawr ar y rhain. Mae safleoedd gweithgynhyrchu a phrosesu'n dal yn gweithredu, ac mae'r cyflenwadau manwerthu o'r DU a'r rhai sy'n cael eu hallforio wedi adfer ar ôl y prinder a achoswyd gan brynu mewn panig yn ystod dechrau'r cyfyngiadau symud. Mae'r system bwyd wedi dangos cydnerthedd a hyblygrwydd yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae busnesau wedi bod yn fedrus wrth reoli cynyrchiadau a logisteg, a rhoi cyfyngiadau prynu ar unrhyw gynnyrch prin er mwyn cynnal cyflenwadau i'r cyhoedd ledled Cymru a'r DU. Mae cyfuniad o bobl yn cael cyngor i warchod a'r ffaith nad oes llawer o bobl yn dymuno ymweld â siopau wedi achosi galw aruthrol am ddanfoniadau i'r cartref. Mae gwerthiannau drwy'r sianel hon wedi dyblu ac maent yn cael eu cynnal yn llwyddiannus.

Mae cyflenwad bwyd Cymru, ac felly diogelwch y cyflenwad hwnnw, wedi'u hintegreiddio'n gyfan gwbl â'r DU. Mae cadwyni cyflenwi'n gweithredu yng nghyd-destun y DU a ffin allanol y DU yw'r ffactor pwysig, gan ei bod yn dylanwadu ar lifoedd masnach, llafur ymfudol, a dyma'r pwynt lle mae effeithiau ar arian a thariffau'n effeithio ar brisiau a phenderfyniadau ynghylch caffael. O ganlyniad i hynny, mae'r holl weinyddiaethau datganoledig yn gweithio gyda DEFRA i asesu'r sefyllfa. Mae gennym rôl weithredol yn llunio cynlluniau ac asesiadau, ac mae Llywodraeth Cymru yn aelod uchel ei barch o'r rhwydweithiau rhanddeiliaid a gynullir gan DEFRA sy'n berthnasol i'r gwaith hwn. Mae cylch gweithgareddau sefydledig ac mae seilwaith yn ei le i gael safbwyntiau cynhyrchwyr a rhanddeiliaid bwyd. Rwyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr archfarchnadoedd bob mis hefyd, er mwyn trafod materion. Nid yw'r asesiadau diweddar wedi nodi risgiau uniongyrchol, ac mae'r system bwyd yn ddiogel ar y cyfan.

Mae'r sylw eisoes wedi troi at risgiau ail don Covid-19 a'r ffaith y bydd y DU yn masnachu â'r UE ar delerau Sefydliad Masnach y Byd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben os na fydd y DU a'r UE yn dod i gytundeb. Mae'n bwysig bod yn drylwyr ac yn barod, ac i beidio â gwneud rhagdybiaethau difeddwl. Mae'r asesiadau'n nodi, yn gyffredinol, mai'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y gadwyn gyflenwi a llywodraethau ar y cyd i reoli Covid-19 hyd yma fyddai'r dulliau gorau o reoli amhariad yn y dyfodol. Hanfod llwyddo fydd cyfathrebu â'r cyhoedd i gynnal cydweithrediad ac i reoli'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

I helpu'r sector gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod, mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a minnau wedi cyhoeddi cynllun adfer ar gyfer y misoedd i ddod, ac mae busnesau wedi cymryd rhan mewn gweminar ar y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei hymdrechion ar helpu busnesau i oroesi'r effaith uniongyrchol ac i droi eu sylw at baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

13. **Oes modd i chi roi diweddariad i'r Pwyllgor ar amserlen eich ymateb i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cod nwyddau groser?**

Cafodd ymgynghoriad ynghylch trefniadau contract yn y diwydiant llaeth ei lansio gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar 24 Mehefin 2020, a bydd yn cau ar

15 Medi 2020. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar faterion y gadwyn gyflenwi ar draws sector llaeth y DU, ac ar ddarparu amodau tecach ar gyfer contractau llaeth.

Hyd yma, mae'r gyfradd ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Ar 17 Awst, roedd DEFRA wedi cael 208 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae nifer o ddigwyddiadau ar-lein i randdeiliaid gyda ffermwyr wedi cael eu cynnal yn barod. Byddwn yn adolygu'r ymatebion ar ôl i'r ymgynghoriad gau ar 15 Medi. Oherwydd bod hwn yn ymgynghoriad i'r DU gyfan, bydd angen i ni weithio'n agos gyda DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau'r canlyniad gorau i gynhyrchwyr llaeth Cymru.

Mae llywodraethau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU wedi cydweithio i lansio'r ymgynghoriad 12 wythnos sy'n ceisio rhoi diwedd ar unrhyw arferion annheg yn y sector.

Rydym yn ymgynghori â ffermwyr a phroseswyr llaeth i archwilio a ellid cyflwyno rheoliadau i gynyddu tegwch a thryloywder. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno, o bosibl, contractau gorfodol yn y diwydiant llaeth.

Mae'r cynigion sydd wedi'u lansio yn yr ymgynghoriad yn cynnwys opsiwn i gyflwyno mecanwaith prisio gorfodol ym mhob contract rhwng ffermwyr a phroseswyr llaeth. Byddai'n sicrhau y cytunir yn ffurfiol yn y contract ar y pris a delir ar gyfer llaeth a gynhyrchwyd gan y ffermwr, a bod trafodaethau contract yn cael eu cynnal mewn modd clir, teg a thryloyw.

## Brexit a Fframweithiau Cyffredin

**14. Oes modd i chi roi diweddariad i'r Pwyllgor ar unrhyw faterion perthnasol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar 29 Gorffennaf?**

Yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar 29 Gorffennaf, gwnaethom drafod is-ddeddfwriaeth, trefniadau ar gyfer y ffin, a chynigion a fframweithiau Llywodraeth y DU ar gyfer y farchnad fewnol. Yn ystod y trafodaethau ar is-ddeddfwriaeth, atgoffais DEFRA ein bod yn disgwyl digon o amser i'r Senedd ystyried unrhyw offerynnau statudol yn llawn. Cytunodd y Grŵp ei bod yn hollbwysig rhannu offerynnau statudol drafft cyn gynted ag y bo modd, a chefais sicrwydd y byddem yn cael cymaint o fanylion â phosibl yn ystod mis Awst.

Cawsom drafodaeth fer ar faterion yn ymwneud â'r ffin, a chytuno i'w hystyried yn fanylach yng nghyfarfod mis Medi. Pwysleisiais nad yw fformiwla Barnett yn ffordd addas o ariannu unrhyw seilwaith newydd ar y ffin.

Gwnaethom drafod papur gwyn diweddar Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol a mynegais siom Llywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei gyhoeddi heb unrhyw ymgynghoriad, ac er gwaethaf tair blynedd o waith i gytuno ar ddull gweithredu ar gyfer fframweithiau a oedd wedi'i ddylunio'n arbennig i reoli unrhyw wahaniaethau rheoleiddiol yn y DU.

Gwnaethom gytuno ar ddull o gwblhau fframweithiau i sicrhau bod fframwaith dros dro ar waith ar gyfer pob maes erbyn diwedd y flwyddyn, ond mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cwblhau a'u rhoi ar waith yn llawn yn 2021. Ynghyd â'm Gweinidogion cyfatebol yn y Llywodraethau Datganoledig eraill, pwysleisiais pa mor bwysig yw hi bod pawb yn cytuno ar fframweithiau ac nad ydynt yn cael eu gorfodi. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar ôl pob cyfarfod drwy ddatganiadau ysgrifenedig a hysbysiadau y cytunir arnynt.

## Llifogydd

15. **Byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu copi o'ch strategaeth newydd ar gyfer llifogydd pan gaiff ei chyhoeddi fis Medi.**

Cafodd y Strategaeth newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei gosod gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2020, cyn ei chyhoeddi'n llawn yn yr hydref. Mae'r ddogfen ar gael yn:
https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld13343/gen-ld13343-w.pdf

a

https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld13343/gen-ld13343-e.pdf

16. **Dywedoch wrth y Pwyllgor bod "cyllid sylweddol" wedi cael ei roi i awdurdodau lleol "i'w galluogi nid yn unig i ymchwilio, ond i gyhoeddi eu canfyddiadau a darparu seilwaith, os oes angen, i'w atal rhag digwydd eto". Faint sydd wedi cael ei ddyrannu at y diben hwn?**

Yn syth ar ôl stormydd mis Chwefror, cysylltodd Llywodraeth Cymru â phob awdurdod lleol ac â Cyfoeth Naturiol Cymru i wahodd ceisiadau am gyllid er mwyn gwneud gwaith trwsio brys i asedau lliniaru llifogydd.

Ers hynny rydym wedi darparu £4m o gyllid brys i awdurdodau lleol (i gefnogi eu swyddogaethau statudol fel Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd) yn 2019-20 a 2020-21. Cyhoeddwyd y cyllid hwn i gefnogi gwaith awdurdodau yn trwsio'r difrod a achoswyd gan lifogydd yn gynharach eleni. Mae ein cyllid brys i drwsio seilwaith perygl llifogydd, gan gynnwys amddiffynfeydd a chwlfertau, yn darparu ar gyfer yr holl gostau cyfalaf cysylltiedig. Cafodd cymorth ariannol ehangach arall ei ddarparu i awdurdodau lleol gan Adrannau eraill o Lywodraeth Cymru hefyd.

Ym mis Ebrill, roeddwn i wedi cyhoeddi rhaglen fuddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer 2020/21. Yn 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £35m o gyllid cyfalaf i gefnogi gwell amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol i gymunedau, gan ddarparu £27m o gymorth refeniw hefyd.

Yn ogystal â hynny, rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella ein cefnogaeth i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd er mwyn cyflymu'r cynlluniau newydd a'r gwaith cynnal a chadw sydd yn yr arfaeth. Eleni, mae hyn yn cynnwys darparu cyllid 100% ar gyfer yr holl waith paratoi cyn adeiladu cynlluniau llifogydd ac arfordirol. Mae'r cymorth newydd hwn yn golygu bod Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yn gallu cael gafael ar gyllid i dalu am gostau gwaith modelu a dylunio.

https://llyw.cymru/rhaglen-rheoli-perygl-llifogydd-ac-arfordiroedd-2020-i-2021

17. **A ydych yn meddwl bod y lefel bresennol o gyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i ddelio â llifogydd yn ddigonol, o ystyried amlder cynyddol glawogydd eithriadol? A ydych yn credu y bydd rhaid darparu rhagor o gyllid i helpu awdurdodau lleol i ddelio â llifogydd dros y gaeaf?**

Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn galw am weithredu ar y cyd ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog yn hyn o beth. Dyna pam fy mod wedi datgan argyfwng hinsawdd a pham mae Llywodraeth Cymru bellach yn buddsoddi mwy nag erioed mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r wyddoniaeth yn dangos yn glir bod digwyddiadau tywydd tebyg i'r stormydd diweddar yn dod yn fwy a mwy cyffredin. Rwyf yn cydnabod bod effeithiau llifogydd yn eang: mae'n effeithio ar iechyd a lles unigolion, ar ein hamgylchedd naturiol, ac mae'n gallu dinistrio cartrefi a busnesau. Bellach, mae'r

Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn llywio ymyriadau ac yn sbarduno rhaglenni buddsoddi. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Bwyllgor Llifogydd annibynnol Cymru.

Yn amlwg bydd angen cynnal lefelau buddsoddi sylweddol i helpu i ddiogelu a chefnogi'r cymunedau sydd yn y perygl mwyaf yn sgil effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol, yn enwedig oherwydd bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn dwysáu'r peryglon sy'n wynebu ein cymunedau.  Byddai setliadau cyfalaf a refeniw aml-flwyddyn ar gyfer rheoli perygl llifogydd, fel y gwelir yn Lloegr a'r Alban, yn helpu i gynllunio'n strategol yn y dyfodol ac yn rhoi hyder i Awdurdodau Rheoli Perygl wneud yr un fath, gan ddarparu ffrydiau darparu tymor hwy.

**18. Pa bryd ydych yn disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi eu canfyddiadau o'r gwaith sydd wedi cael ei ariannu?**

O dan Adran 19(1) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i gynhyrchu adroddiad ymchwilio 'Adran 19' ar ôl achos o lifogydd.

Gellir cynhyrchu'r adroddiadau hyn yn gyflym, a gallant gynnwys unrhyw argymhellion i leihau llifogydd er mwyn galluogi awdurdodau lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno ceisiadau ychwanegol am gyllid Llywodraeth Cymru i leihau perygl llifogydd i gymunedau.

Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cyhoeddi eu canfyddiadau, ond bydd yr amserlenni adolygu'n amrywio yn ôl nifer yr achosion o lifogydd ym mhob ardal awdurdod lleol, eu graddfa a'u natur, yn ogystal â chapasiti awdurdodau lleol. Ar ôl eu cwblhau, rhaid cyhoeddi'r adroddiadau er mwyn i'r cyhoedd, aelodau etholedig a phob parti arall â diddordeb allu craffu arnynt yn briodol.

**19. Pa mor fodlon ydych fod y camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd i'w "atal rhag digwydd eto"?**

Nid yw'n bosibl atal pob achos o lifogydd ac erydu arfordirol.  Fodd bynnag, pan fydd pobl, cymunedau a busnesau dan fygythiad, gallwn reoli'r risg drwy leihau tebygolrwydd achos, a'i effeithiau a'i oblygiadau cysylltiedig.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn rhagweithiol yn dal yn flaenoriaeth uchel i mi.

Yn gyfiawnadwy, mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn canolbwyntio ar leihau'r risg i gymunedau mewn ardaloedd sydd yn y perygl mwyaf. Yn hanesyddol, mae datblygiadau ar hyd afonydd, aberoedd a'r arfordir wedi bod yn ofynnol at ddibenion masnach, economaidd neu amaethyddol ond, dros amser, mae hynny wedi rhoi pobl mewn mwy o berygl o lifogydd. Mae'r datblygiadau ym meysydd peirianneg ac adeiladu'n golygu bod modd rheoli rhai o'r peryglon hynny, ond bydd rhywfaint o risg bob amser ac wrth iddi gynyddu, efallai y bydd angen cynlluniau lliniaru drud a gwaith cynnal a chadw parhaus i gadw pobl yn ddiogel.

Mae data gwell, mwy agored ar berygl llifogydd yn arwain at benderfyniadau gwell a mwy gwybodus ar ble dylid datblygu, a sut mae addasu cymunedau i gael gwared ar elfennau risg. Gall fy swyddogion hefyd roi gwybodaeth i'r cyhoedd i'w helpu i ddeall sut gallai llifogydd effeithio arnynt, er mwyn iddynt allu gwneud eu dewisiadau eu hunain o ran osgoi risg neu reoli eu risg personol.

Bydd y TAN 15 newydd yn darparu cyngor polisi mwy clir a chadarn ynghylch rheoli ardaloedd mewn perygl canolig ac uchel o lifogydd. Dylai polisïau cynllunio a Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ategu ei gilydd, gan leihau'r risg drwy atal datblygiadau amhriodol ar y gorlifdir a helpu Awdurdodau Cynllunio i wneud penderfyniadau clir ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael.

## Y Newid yn yr Hinsawdd

**20. Pa asesiad ydych wedi'i wneud o effaith newid ymddygiad neu benderfyniadau busnes, o ganlyniad i bandemig Covid-19, ar lefelau allyriadau?**

Mae'r gwaith o adrodd yn ffurfiol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn destun oedi. Mae'r data diweddaraf sydd gennym yn ymwneud â 2018. Cafodd eu cyhoeddi ym mis Mehefin – https://llyw.cymru/allyriadau-nwyon-ty-gwydr-ffeithlun

Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau ledled y DU a thu hwnt wedi ceisio rhag-weld effaith Covid-19 ar allyriadau. Er enghraifft, mae adroddiad cynnydd diweddaraf Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (sydd ar gael yn https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Reducing-UK-emissions-Progress-Report-to-Parliament-Committee-on-Cli.._-002-1.pdf) yn awgrymu bod y cyfyngiadau ar symud a gweithgarwch economaidd wedi cael effaith.

Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at senario y mae'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol wedi'i chyhoeddi, sy'n rhag-weld gostyngiad o 8% mewn allyriadau $CO_2$ byd-eang yn 2020. Mae hefyd yn cyfeirio at amcangyfrif y Prosiect Carbon Byd-eang, sef gostyngiad o 2-7% mewn allyriadau byd-eang os bydd y cyfyngiadau symud yn rhai byrhoedlog, a 3-13% os bydd y cyfyngiadau ar waith yn fyd-eang nes diwedd y flwyddyn. Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn tynnu sylw at y tebygolrwydd mai'r adferiad fydd yn sbarduno allyriadau yn y tymor canolig, a buddsoddiadau ac agweddau at gydweithredu byd-eang fydd yn gwneud hynny yn y tymor hir.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar bawb yn y DU, ond fe allai gynyddu anghydraddoldebau iechyd a chyfoeth. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni sicrhau bod ein gwaith o leihau allyriadau'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n deg yn gymdeithasol ac yn economaidd.

**21. A fyddwch yn cyhoeddi ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y grŵp sy'n cael ei arwain gan Chris Jofeh, a gafodd y dasg o ystyried cost ôl-osod cartrefi yng Nghymru ymysg pethau eraill?**

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gwneud Datganiad Llafar yn ymateb i Adroddiad Jofeh, ar 24 Medi 2019. Mae hwn ar gael yn y ddolen ganlynol. https://record.assembly.wales/Plenary/5844#A53270.

## Lles Anifeiliaid

**22. Dywedoch wrth y Pwyllgor y byddwch yn cyflwyno Bil mewn perthynas â gwerthu cŵn bach gan drydydd parti. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Oes modd i chi gadarnhau a fyddwch yn deddfu ar y mater hwn gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth?**

Gallaf gadarnhau fod y gwaharddiad arfaethedig ar werthiant masnachol cŵn a chathod bach gan drydydd parti yn cael ei gyflwyno fel is-ddeddfwriaeth. Teitl dros dro'r

ddeddfwriaeth newydd yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

**23. Roeddech wedi cadarnhau bod ail ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y mater. Oes modd i chi gadarnhau eich bod yn bwriadu ymgynghori ar destun y ddeddfwriaeth ddrafft?**

Nid oes cynlluniau i ymgynghori ar destun drafft y ddeddfwriaeth. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn eithriadol o dynn. Mae swyddogion wrthi'n trafod â chyfreithwyr ynghylch y mater hwn. Bydd swyddogion yn rhoi cyngor i mi ar y mater hwn dros yr wythnosau nesaf a byddaf yn gwneud penderfyniad bryd hynny.

**24. Oes modd i chi roi diweddariad i'r Pwyllgor ar safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gynllun cymorth ar gyfer costau milfeddygol i berchnogion anifeiliaid anwes agored i niwed?**

Mae nifer o elusennau eisoes yn cynnig triniaeth filfeddygol â chymhorthdal i berchnogion anifeiliaid anwes nad ydynt yn gallu fforddio gofal milfeddygol i'w hanifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i atgoffa darpar berchnogion anifeiliaid anwes i fod yn ymwybodol o gost lawn anifail anwes, gan gynnwys ffioedd milfeddygol ac yswiriant. Cafodd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol #ArosAtalAmddiffyn ei lansio cyn y Nadolig i hybu pryniannau cyfrifol ac i atgoffa pobl o'r costau gydol oes sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar anifail anwes, yn enwedig cŵn bach. Nid oes cynlluniau i gyflwyno cynllun cymorth ar hyn o bryd.

## Amaethyddiaeth

**25. Beth yw'r amserlen ar gyfer ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig?**

Mae Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol wedi ymateb i adroddiad Archwilio Cymru, 'Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian', ar 13 Awst.

**26. Dywedodd eich swyddog wrth y Pwyllgor fod cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth i dalu dirwyon cosbau ariannol. Faint sydd wedi'i ddyrannu at y diben hwn?**

Y gyllideb a ddyrennir ar hyn o bryd i dalu cosbau ariannol posibl yw £13,954,692.99. Record Cymru o ran cosbau ariannol ar gyllid yr UE yw'r isaf yn y DU, ac mae ymysg yr isaf yn Ewrop.

**27. Pa ystyriaeth ydych wedi'i rhoi i'r cymorth parhaus i ddigwyddiadau a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gymunedau gwledig, yng nghyd-destun y cyfyngiadau sy'n deillio o bandemig Covid-19?**

Mae Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth wedi gweithio'n agos gyda thîm Ymateb i Covid canolog Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod canllawiau Covid-19 yn cael eu monitro'n barhaus a'u diweddaru wrth i sefyllfa Covid-19 ddatblygu, i wneud yn siŵr bod digwyddiadau a sefydliadau yn ein cymunedau gwledig yn deall yn glir y fframweithiau maent yn gallu gweithredu ynddynt ar hyn o bryd.

Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid gwledig drwy'r amryw o sianeli sydd ar gael, er mwyn cefnogi ein cymunedau gwledig yn y Broses Adferiad Gwledig. Mae'r dolenni perthnasol i gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau a chymunedau,

yn ogystal â dolenni i'r cymorth ehangach sydd ar gael gan ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a sefydliadau elusennol, oll wedi cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Rhwydwaith Gwledig Cymru, ynghyd â'r sianel cyfryngau cymdeithasol. Mae cyfres o weithdai'n cael eu datblygu drwy Rwydwaith Gwledig Cymru, gan ddechrau yn yr hydref, er mwyn rhannu'r arferion gorau a darparu cyngor polisi.

Mae'r Cynllun LEADER o dan *Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru* (Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020) yn rhoi cymorth i gymunedau gwledig mewn 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Darperir y cymorth drwy 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol. Mae Grwpiau Gweithredu Lleol Cymru wedi nodi blaenoriaethau brys ar lawr gwlad mewn ymateb i Covid-19; ymysg y rhain mae sicrhau a dosbarthu bwyd a chyflenwadau meddygol i bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf gwledig/sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol i'r graddau mwyaf. Maent wedi nodi adnoddau lleol ac wedi cynorthwyo drwy gydlynu gwirfoddolwyr, cefnogi cadwyni cyflenwi byr, rhwydweithio a chydweithio i sicrhau bod dull gwybodus a phriodol o ddiwallu anghenion lleol.

Yn ddiweddar, rhoddais gymeradwyaeth ar gyfer newid diben y Cynllun LEADER er mwyn cefnogi'r ymateb i argyfwng COVID-19. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Nodyn Cyfarwyddyd Ategol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a'u Cyrff Gweinyddol – COVID-19 a Chynllun LEADER" ar 29 Mehefin 2020. Roedd hwn yn lansio ymarfer ail-broffilio cysylltiedig, gan roi cyfle i bob Grŵp Gweithredu Lleol ddiwygio ei ddull neu ganolbwyntio ei gymorth yn wahanol, er mwyn ymateb i'r sefyllfa sydd ohoni. Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cynnig ei gymorth ac wedi cynnal cyfarfodydd â Chyrff Gweinyddol LEADER i sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar yr hyblygrwydd sydd ar gael er budd eu cymunedau gwledig yn ystod y broses adfer.

O ran digwyddiadau'n benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o effeithiau pandemig Covid-19 ar sioeau amaethyddol. Mae cyd-weithwyr yn yr Is-adran Amaeth - Cynaliadwyedd a Datblygu yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Sioe Sir Benfro a Sioe Môn mewn perthynas â'u cydnerthedd ariannol.

Daeth pob digwyddiad a mecanwaith cymorth wyneb yn wyneb Cyswllt Ffermio i ben ar unwaith ar 24 Mawrth 2020. Fodd bynnag, cafodd y dewisiadau cyflawni eu hadolygu'n gyflym a darparodd y contractwyr 'system goleuadau traffig, a oedd yn nodi pa wasanaethau fyddai modd eu rhoi ar waith yn rhwydd gan ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol a Rheoliadau'r Coronafeirws 2020. Cafodd darpariaeth ddigidol/ar-lein ei defnyddio'n ddiofyn lle bo'n briodol. Mae'r ymyriadau hynny a oedd yn perthyn i'r categori "gwyrdd" wedi ailddechrau ers 15 Mai 2020 – yn unol â Rheoliadau Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Mae'r system goleuadau traffig wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd, yn unol â'r adolygiadau bob tair wythnos gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw ganllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar lacio'r cyfyngiadau. Mae'r HOLL ddarpariaeth wyneb yn wyneb un-i-un wedi ailddechrau ers 23 Mehefin 2020. Mae'r digwyddiadau un-i-lawer y gellir eu cynnal yn gyfan gwbl yn yr awyr agored gyda llai na 30 o bobl wedi ailddechrau ers 15 Awst 2020, a ailddechrodd hyfforddiant wedi'i achredu yn yr ystafell ddosbarth ar 1 Medi 2020, fel y cadarnhawyd yn ysgrifenedig ar 19 Awst 2020.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs